Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Safonau ar gyfer Sicrwydd Cymhwysedd Rhagnodwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru

Hydref 2023

# Cynnwys


1. Rhagymadrodd .......... 2
2. Cwmpas .......... 3
3. Safonau ar gyfer Sicrwydd Cymhwysedd Rhagnodwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru .......... 4
4. Safonau ar gyfer Gofynion Sicwydd Cymhwysedd i Gyflogwyr .......... 8
5. Geirfa .......... 10
6. Cydnabyddiaethau .......... 11


*Arweiniwyd datblygiad y Safonau ar gyfer Sicrwydd Cymhwysedd Rhagnodwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru gan Gymrawd Clinigol Fferylliaeth AaGIC..*

# 1. Rhagymadrodd

Mae’r Safonau ar gyfer Sicrwydd Cymhwysedd Rhagnodwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru wedi’u datblygu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) mewn partneriaeth â’n rhanddeiliaid. Mae’r safonau’n cefnogi dull “Unwaith i Gymru” o sicrhau ansawdd y gweithlu rhagnodwyr annibynnol ac atodol anfeddygol (NMP) yng Nghymru. Maent yn gosod y gofynion sylfaenol ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ac adolygu cymhwysedd parhaus i ragnodi ar gyfer rhagnodwyr anfeddygol a chyflogwyr rhagnodwyr anfeddygol.

Cynhaliodd AaGIC waith cwmpasu yn 2019 a nododd angen i gynhyrchu canllawiau i gefnogi rhagnodwyr anfeddygol i ddangos tystiolaeth briodol o gymhwysedd parhaus i ragnodi. Datblygwyd y Safonau ar gyfer Sicrwydd Cymhwysedd Rhagnodwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru gan AaGIC yn dilyn adolygiad o Bolisïau’r NMP sydd ar waith ar hyn o bryd ledled Cymru ac mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol.

Mae cymhwyso'r safonau hyn yn gyfrifoldeb amlddisgyblaethol. Mae pob rhagnodwr anfeddygol yn gyfrifol am ragnodi o fewn ei gwmpas a’i gymhwysedd ei hun, gan ddefnyddio’r wybodaeth, y farn a’r sgiliau a enillwyd ganddo, a rhaid iddo allu darparu tystiolaeth o’i gymhwysedd i ragnodi.

# 2. Cwmpas

O fewn Cwmpas:

Mae’r safonau wedi’u hanelu at ragnodwyr anfeddygol cofrestredig sy’n darparu gwasanaethau’r GIG i gleifion yng Nghymru, a chyflogwyr rhagnodwyr anfeddygol, ym mhob sector ymarfer yng Nghymru. Mae’r safonau’n berthnasol i ragnodwyr annibynnol anfeddygol, nyrsys sy’n rhagnodi sy’n ymarferwyr cymunedol a rhagnodwyr atodol.

Allan o gwmpas:

Sicrwydd cymhwysedd rhagnodi gan feddygon a deintyddion.

Tystiolaeth o ofynion ar gyfer unigolion sy’n newydd i ymarfer rhagnodi, ehangu neu newid cwmpas ymarfer, a’r rhai sy’n dychwelyd i ymarfer ar ôl cyfnodau o absenoldeb.

Nid yw'r safonau hyn yn atal gweithwyr proffesiynol rhag bodloni eu gofynion rheoleiddio proffesiynol eu hunain ac nid ydynt wedi'u datblygu i greu dyblygiad gofynion ail-ddilysu; gellir defnyddio unrhyw weithgareddau a gyflawnwyd, neu dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o ail-ddilysu proffesiynol fel tystiolaeth o gymhwysedd parhaus i ragnodi.

I gael gwybodaeth a chyngor ar arfer da ac arweiniad ar y camau gweinyddol a gweithdrefnol sydd eu hangen i alluogi nyrsys, bydwragedd, fferyllwyr, optometryddion a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd i weithredu fel rhagnodwyr annibynnol a/neu atodol gweler Rhagnodi Annibynnol ac Atodol yng Nghymru – Dogfen Ganllaw, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

I gael arweiniad ar ehangu cwmpas ymarfer gweler Canllawiau Proffesiynol y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS): Ehangu Cwmpas Ymarfer.

# 3. Safonau ar gyfer Sicrwydd Cymhwysedd Rhagnodwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru

Mae cynnal hyder a chymhwysedd i ragnodi yn gymhwysedd o fewn Fframwaith Cymhwysedd RPS ar gyfer Pob Rhagnodwr sy'n dangos pwysigrwydd gallu i ddangos tystiolaeth o gymhwysedd rhagnodi parhaus.

Mae'r safonau a ganlyn yn amlinellu'r gofynion sylfaenol i ragnodwyr anfeddygol ddangos tystiolaeth o'u cymhwysedd parhaus i ragnodi.

### Safon 1: Bydd pob NMP yn hunanasesu cymhwysedd rhagnodi yn flynyddol gan ddefnyddio Fframwaith Cymhwysedd RPS ar gyfer Pob Rhagnodwr

- Defnyddio Fframwaith Cymhwysedd RPS i gynnal hunanasesiad o arfer rhagnodi a chymhwysedd parhaus i ragnodi, o leiaf unwaith y flwyddyn, i nodi unrhyw feysydd i ganolbwyntio dysgu arnynt[1].
- Lle nodir bod y cymwyseddau wedi'u bodloni, dylai'r dystiolaeth a gofnodwyd yn y portffolio adlewyrchu hyn.
- Nid yw'r fframwaith yn nodi sut y dylid sicrhau cymhwysedd ond mae'n darparu fframwaith y gellir ei ddefnyddio i asesu cymhwysedd parhaus a'i ddefnyddio i gefnogi datblygiad portffolio i ddangos cymhwysedd rhagnodi parhaus.
- Os nodir angen i ehangu cwmpas ymarfer rhagnodi, cyfeiriwch at Ganllawiau RPS ar Ehangu Cwmpas Ymarfer Rhagnodi. *Nodyn – mae gofynion tystiolaethu ar gyfer ehangu neu newid cwmpas ymarfer y tu hwnt i gwmpas y canllaw hwn*.

[1]Er y gall gwahaniaethau fodoli yn erbyn fframwaith cymhwysedd y Gymdeithas Fferyllol frenhinol (RPS) ar gyfer rhai proffesiynau, cynghorir y dylid cynnal hunanasesiad o arferion rhagnodi a chymhwysedd parhaus i ragnodi. Dylai hyn gael ei wneud yn erbyn y fframwaith cymhwysedd presennol a ddefnyddir fel rhan o hyfforddiant rhagnodwyr anfeddygol ar gyfer y proffesiwn hwnnw.

## Safon 2: Bydd pob NMP yn cwblhau datganiad blynyddol o gymhwysedd parhaus i ragnodi A datganiad o gwmpas eu hymarfer rhagnodi o leiaf unwaith y flwyddyn.

- Datganiad blynyddol o gymhwysedd parhaus i ragnodi:
    - Datganiad proffesiynol bod yr NMP wedi cynnal hunanasesiad o'i arfer rhagnodi (yn unol â Safon 1), wedi cynnal ei gymhwysedd i ragnodi, ac yn gallu darparu tystiolaeth o hyn yn unol â'r safonau hyn.
- Datganiad o gwmpas ymarfer rhagnodi:
    - Yn unol â Fframwaith Cymhwysedd RPS, mae rhagnodwyr yn gyfrifol am ragnodi o fewn eu cwmpas ymarfer eu hunain a dirprwyo neu geisio cymorth lle y bo'n briodol.
    - Rhaid datgan cwmpas arfer rhagnodi yn flynyddol fel isafswm ac yn amlach os oes unrhyw newidiadau (er enghraifft wrth i'r cwmpas rhagnodi gael ei ehangu neu os bydd newid yn y sector ymarfer yn gofyn am newid i gwmpas yr arfer rhagnodi).
    - Rhaid i gwmpas yr arfer rhagnodi nodi maes clinigol (a/neu gyflwr (cyflyrau) clefyd) y mae NMP yn bwriadu rhagnodi ynddo.

Datganiadau o gymhwysedd parhaus i ragnodi a chwmpas yr arferion rhagnodi i'w gwneud a'u cadw ar lwyfan canolog, er enghraifft y Cofnod Staff Electronig (ESR) neu Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC/NWSSP).

## Safon 3: Bydd pob NMP yn cael gwerthusiad rhagnodi gydag unigolyn â chymwysterau addas bob tair blynedd

- Arfarniad adeiladol o arfer rhagnodi i gynnwys:
    - adolygu portffolio o dystiolaeth (manylion y dystiolaeth leiaf i'w cynnwys yn Safon 4.1)
    - trafod unrhyw anghenion datblygu neu ddysgu
    - trafod unrhyw heriau (gan gynnwys gwallau) a nodwyd
- Arfarniad rhagnodi i'w gynnal gan unigolyn â chymwysterau addas (e.e. rheolwr llinell (os yw hefyd yn ragnodwr), ymarferydd rhagnodi dynodedig, mentor, ymgynghorydd, meddyg teulu) sydd wedi dilyn hyfforddiant priodol, fel yr amlinellir yn Adran 4, Safon 2.
- Gall yr arfarniad rhagnodi fod yn rhan o arfarniad perfformiad cyffredinol ac adolygiad datblygiad yr unigolyn.

## Safon 4: Bydd pob NMP yn dangos eu cymhwysedd parhaus i ragnodi mewn portffolio

- Mae Fframwaith Cymhwysedd RPS ar gyfer Pob Rhagnodwr yn argymell defnyddio portffolio i ddangos cymhwysedd parhaus wrth ragnodi ac fel dull o wella arfer rhagnodi. Argymhellir defnyddio cyfuniad o ddulliau i asesu a sicrhau cymhwysedd i ragnodi, fel yr amlinellir yn y tabl isod (4.1).
- Dylid coladu cyfuniad o dystiolaeth i ffurfio portffolio o dystiolaeth i ddangos cymhwysedd rhagnodi parhaus.
- Rhaid i dystiolaeth a gesglir ymwneud â chwmpas yr arfer rhagnodi.
- Mae'r tabl isod (4.1) yn amlinellu faint o dystiolaeth y dylid ei chynnwys o leiaf mewn portffolio rhagnodi.
- Gellir defnyddio tystiolaeth mewn mwy nag un ffordd, er enghraifft:
    - gellir defnyddio gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a wneir fel rhan o ailddilysu proffesiynol fel tystiolaeth o fewn portffolio rhagnodi
    - gall log clinigol fod ar ffurf DPP
- Lle bo modd, dylai'r dystiolaeth a gesglir cynnwys enghreifftiau o ddigwyddiadau rhagnodi lle gwnaed y penderfyniad i 'ragnodi' ond hefyd lle gwnaed y penderfyniad 'i beidio â rhagnodi'
- Dylai'r dystiolaeth a gesglir hefyd gynnwys adfyfyrio ar unrhyw wallau rhagnodi a allai fod wedi digwydd.
- Nid yw'r enghreifftiau o weithgareddau y gellid eu cyflawni i gyflawni pob math o dystiolaeth yn hollgynhwysfawr. Dylid ystyried sut y gellir cyflawni'r rhain o fewn eich sector ymarfer eich hun.

## Safon 4.1: Isafswm tystiolaeth i'w chynhyrchu'n flynyddol a'i hymgorffori mewn portffolio rhagnodi

| Math o Dystiolaeth | Isafswm Nifer | Rhesymeg | Enghreifftiau o Dystiolaeth |
|---|---|---|---|
| Adolygiad Cymheiriaid | 1 | Mae adolygiad gan gymheiriaid clinigol yn ddull a ddefnyddir gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol i werthuso perfformiad clinigol ei gilydd. Y prif ddiben yw gwella ansawdd a diogelwch gofal cleifion.<br><br>Gellir defnyddio adolygiadau gan gymheiriaid i asesu cymhwysedd i ragnodi a dylent gael *eu cynnal gan rywun sy'n gweithio yn yr un cwmpas ymarfer â'r sawl sy'n cael ei adolygu* er mwyn gallu darparu adborth ar sgiliau generig ac ar faterion sy'n ymwneud â chyflyrau penodol. | • **Adolygiadau ar sail achos –** trafodaethau gyda mentor, ymarferydd rhagnodi dynodedig (DPP), neu gymheiriaid<br>• **Grwpiau cyfoedion NMP** - cyfle i gael hyfforddiant, trafod dysgu, ac adborth gan gymheiriaid. Dylid ystyried ffynonellau tystiolaeth ryngbroffesiynol (e.e. cefnogaeth gan gymheiriaid gyda NMPs o broffesiynau eraill) lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol i alluogi dysgu ar y cyd ar draws proffesiynau.<br>• **Goruchwyliaeth glinigol –** e.e. – arsylwi arfer clinigol, sgiliau asesu clinigol, a sgiliau ymgynghori a gyflawnir gan gyfoed-ragnodwr, DPP, mentor, neu ragnodwr meddygol.<br>• **Trafod arferion rhagnodi**, gan gynnwys trafod gwallau rhagnodi ac achosion lle gwnaed y penderfyniad i BEIDIO â rhagnodi, gyda'r mentor neu'r ymarferydd rhagnodi dynodedig (DPP).<br>• **Dadansoddi achosion ar hap –** adolygiad o gyfran o achosion y mae'r NMP wedi'u rheoli, a gynhaliwyd gan fentor/cyfoedion/DPP ac yna adborth o ddadansoddiad i'r NMP. Dylid trafod unrhyw anghenion dysgu a nodir a chytuno ar gynllun ar gyfer datblygiad parhaus. |
| Log Clinigol | 2 | Mae logiau clinigol yn gofnod strwythuredig o ddigwyddiad dysgu. Maent yn cefnogi adfyfyrio beirniadol o ymarfer a dysgu. | • **DPP –** gweler isod<br>• **Adolygu achos –** e.e. meddwl yn ddwys am achos yn dilyn cysgodi, trafodaeth cymheiriaid, neu oruchwyliaeth, meddwl yn ddwys am gamgymeriadau rhagnodi |
| Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) | 2 | DPP yw'r ffordd y mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn parhau i ddysgu a datblygu drwy gydol eu gyrfaoedd i sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol a'u bod yn gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.<br><br>Mae DPP yn darparu tystiolaeth o ddysgu parhaus. Mae'n elfen allweddol o ofynion ail-ddilysu ar gyfer pob proffesiwn rhagnodi ac mae'n sail i nifer o gymwyseddau o fewn Fframwaith Cymhwysedd RPS ar gyfer Pob Rhagnodwr. | • **DPP wedi'i gynllunio –** e.e mynychu digwyddiad hyfforddi<br>• **DPP heb ei gynllunio –** e.e. dysgu mewn ymateb i gamgymeriad rhagnodi, neu anghenion cleifion heb eu diwallu (PUNs) pan nad oedd NMP yn siŵr am y rhagnodi felly ceisio hyfforddiant/dysgu/canllawiau/ trafodaeth ychwanegol gyda chydweithiwr i ateb cwestiwn clinigol<br>• **Archwilio –** e.e adolygiad o ddata rhagnodi personol. Gellid cynhyrchu cofnod DPP gan atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd yn ystod y broses archwilio<br>• Gellir cynnwys profiad cleifion neu adborth defnyddwyr gwasanaeth fel tystiolaeth o ddysgu a datblygiad parhaus |

# 4. Safonau ar gyfer Gofynion Sicwydd Cymhwysedd i Gyflogwyr

Mae'r safonau a ganlyn yn amlinellu'r gofynion sylfaenol i gyflogwyr alluogi NMPs i gynnal eu cymhwysedd i ragnodi.

### Safon 1: Lle mae angen gwasanaeth i ragnodi, rhaid cefnogi NMPs i gynnal eu cymhwysedd i ragnodi

- Dylai darpariaeth gwasanaeth fod yn gyfryw fel bod rhagnodwyr yn cael eu cefnogi i ddefnyddio eu sgiliau rhagnodi yn ymarferol. Rhaid i gyflogwyr sicrhau bod rhagnodwyr yn cael digon o gyfle i ragnodi o fewn eu hymarfer er mwyn cynnal eu cymhwysedd i ragnodi.
- Rhaid i gyflogwyr ddarparu cyfleoedd i NMPs ymgymryd â'r cyfleoedd datblygu gofynnol, gan gynnwys DPP, i fodloni'r safonau a amlinellir uchod.
    - Anogir ymagwedd ar y cyd at gynllunio DPP rhwng NMPs a chyflogwyr i sicrhau bod Cynlluniau Rheoli Ymarfer yn cael cyfleoedd sy'n gweddu orau i'w harddull dysgu a'r cymorth sydd ei angen arnynt. Dylai NMPs wedyn allu dangos eu dysgu a sut y maent wedi ei ymgorffori mewn ymarfer dyddiol.
- Mae enghreifftiau'n cynnwys: cefnogi isafswm o bresenoldeb blynyddol yng Nghyfarfodydd Grŵp Cyfoedion yr NMP neu ddigwyddiadau DPP.

### Safon 2: Rhaid i gyflogwyr ddarparu/neilltuo unigolyn â chymwysterau addas i werthuso arferion rhagnodi a phortffolios rhagnodi ar gyfer NMPs bob 3 blynedd.

- Unigolyn i'w ddewis/diffinio gan gyflogwr. Gallai hyn fod, er enghraifft, yn rheolwr llinell (os yw hefyd yn rhagnodwr), mentor, ymgynghorydd, neu DPP.
- Rhaid i unigolion sy'n cynnal adolygiadau o arferion rhagnodi fod wedi cael hyfforddiant priodol i allu pennu ansawdd y dystiolaeth a ddarparwyd, darparu adborth priodol a chefnogol, a gweithredu systemau cymorth priodol lle bo angen.
- Dylid cynnal adolygiadau o bortffolios rhagnodi o leiaf unwaith bob tair blynedd ar amser sy'n gyfleus i'r NMP a'r cyflogwr, er enghraifft yn ystod gwerthusiad perfformiad ac adolygiad datblygu.

### Safon 3: Dim ond rolau o fewn cwmpas ymarfer rhagnodi yr NMP y gall cyflogwyr ddisgwyl i ragnodwyr ymgymryd â nhw

- Dylid trafod cwmpas arferion rhagnodi NMP o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai NMPs a chyflogwyr weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod sgiliau rhagnodi'r NMPs yn unol â gofynion gwasanaeth a chleifion. Os nodir angen i ehangu cwmpas ymarfer rhagnodi i ddiwallu anghenion y gwasanaeth, cyfeiriwch at Ganllaw RPS: Ehangu Cwmpas Ymarfer Rhagnodi.
- Bydd NMPs yn cwblhau datganiad o gwmpas eu hymarfer rhagnodi i'w cyflogwr o leiaf unwaith y flwyddyn, neu'n amlach os bydd unrhyw newidiadau i gwmpas ymarfer rhagnodi (er enghraifft, wrth i'r cwmpas rhagnodi gael ei ehangu neu os bydd newid yn y sector o mae ymarfer yn gofyn am newid i gwmpas yr arfer rhagnodi).
- Dim ond rolau rhagnodi o fewn y cwmpas ymarfer datganedig y gellir disgwyl i ragnodwyr ymgymryd â nhw. Pan fo cyflwr person neu'r feddyginiaeth a ragnodwyd y tu allan i gwmpas arferion rhagnodi'r NMP, rhaid i'r NMP ystyried y budd gorau i'r person a phenderfynu a oes ganddo'r cymhwysedd i ragnodi. Os nad yw'r NMP yn gymwys i ragnodi, rhaid cyfeirio'r person at ragnodwr priodol arall.

## Safon 4: Rhaid i gyflogwyr gadw cofnod electronig cywir o'u rhagnodwyr, gan gynnwys cwmpas ymarfer cyfredol

- Cyflogwyr i gynnal cronfa ddata electronig o ragnodwyr, ochr yn ochr â'r datganiad blynyddol o gwmpas ymarfer rhagnodi a datganiad cymhwysedd parhaus i ragnodi, y gellir ei rhannu â sefydliadau eraill lle bo'n briodol.

# 5. Geirfa

*Rhagnodwr annibynnol* – a ddiffinnir gan yr RPS fel: "Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n rhagnodi sy'n gyfrifol ac yn atebol am asesu cleifion â chyflyrau sydd heb gael diagnosis neu ddiagnosis ac am benderfyniadau ynghylch y rheolaeth glinigol sydd ei hangen, gan gynnwys rhagnodi."

*Rhagnodwr anfeddygol (NMP)* – a ddiffinnir gan yr RPS fel: "Mae'r term hwn yn cwmpasu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (ac eithrio meddygon a deintyddion) sy'n gweithio o fewn eu cymhwysedd clinigol fel rhagnodwyr annibynnol a/neu atodol neu ymarferydd cymunedol-ragnodwyr nyrsio. Ceir rhagor o wybodaeth am y mathau o ragnodwyr anfeddygol a'r hyn y gallant ei ragnodi yn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (BNF)."

*Cwmpas yr arfer rhagnodi* – a ddiffinnir gan yr RPS fel: "Y gweithgareddau y mae gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn eu cyflawni o fewn eu rôl broffesiynol. Rhaid i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol feddu ar yr hyfforddiant, y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gyflwyno'r gweithgareddau hyn yn gyfreithlon, yn ddiogel ac yn effeithiol. Rhaid iddynt hefyd gael yswiriant indemniad priodol ar gyfer eu rôl rhagnodi. Gall cwmpas ymarfer gael ei lywio gan safonau rheoleiddio, safbwynt y corff proffesiynol, canllawiau cyflogwyr, canllawiau gan sefydliadau perthnasol eraill a barn broffesiynol yr unigolyn."

*Rhagnodi atodol* – a ddiffinnir gan yr RPS fel: "Partneriaeth wirfoddol rhwng meddyg neu ddeintydd a ragnodwr atodol, i ragnodi o fewn cynllun rheoli clinigol (CMP) claf-benodol y cytunwyd arno gyda chytundeb y claf. Ar adeg cyhoeddi, gall nyrsys, bydwragedd, optometryddion, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, podiatryddion, radiograffwyr, parafeddygon a dietegwyr ddod yn ragnodwyr atodol. Unwaith y byddant wedi cymhwyso, gallant ragnodi unrhyw feddyginiaeth (gan gynnwys cyffuriau rheoledig) o fewn eu cymhwysedd clinigol, yn unol â'r CMP."

# 6. Cydnabyddiaethau


Gweithgor Bywyd Byr y Fframwaith Cymhwysedd

Arweinwyr Polisi NMP – 7 Bwrdd Iechyd, Felindre, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Grŵp Deoniaid a Dirprwyon AaGIC

Grŵp Prif Fferyllwyr

Grŵp Ansawdd a Diogelwch Cleifion Cymru Gyfan

Addysg a Hyfforddiant Fforwm Fferyllwyr Gofal Sylfaenol

Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi – Pip White

Coleg y Parafeddygon – David Rovardi, Helen Beaumont-Waters

Coleg Brenhinol Podiatreg – Debbie Sharman

Cyngor Optegol Cyffredinol - Samara Morgan, Ben Pearson

Coleg yr Optometryddion - Paramdeep Bilkhu

Cymdeithas y Radiograffwyr – Dianne Hogg, Sue Johnson

Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol – Elen Jones, Karen Hodson

Gwasanaethau Clinigol Grŵp Gweithredu Fframwaith Cytundebol Fferylliaeth Gymunedol

Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Llywodraeth Cymru – Arweinwyr Polisi – Andrew Evans, David O'Sullivan, Ruth Crowder, Sue Tranka, Paul Labourne, Rob Orford

Arweinwyr Gofal Sylfaenol AaGIC – Esther Lomas a Rachel Brace

Arweinwyr Cyfarwyddiaethau Proffesiwn AaGIC

Sophie Harding

Lloyd Hambridge

Fferylliaeth AaGIC - Rebecca Hunter, Karen Brambles